

**.Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd Mawrth 15fed 2017 am 7.30 o'r gloch.**

**Minutes of Llanddona Community Council meeting held on 15th March 2017 at 7.30pm**

**1. Presennol/Present** - Cyngorwyr Rhian Hughes (Cadeirydd), Maldwyn Williams, Myrddin Roberts, Dafydd Pritchard, Alwena Roberts a Geraint Parry (Clerc) ac Alwyn Rowlands.

**2. Ymddiheuriadau/Apologies** - Cyng./Clr. Carwyn Jones

**3. Datgan Ddiddordeb/Declaration of interest**

- Cyng. D Pritchard ar drafodaeth tir comin ger Pensarn / *Clr. D Pritchard on the discussion of the common land by Pensarn.*

**4. Cofnodion/Minutes** - Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed o Chwefror fel rhai cywir gan Cyng. M Roberts, eilio gan Cyng. M Williams. / *Minutes of the previous meeting held on 15<sup>th</sup> February were accepted as accurate by Clr. M Roberts, seconded by Clr. M Williams.*

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes**

- 5.1 **Diffibrilwyr / Defibrillators** - disgwyl i Grŵp Seiriol sefydlu cyfrif banc. Disgwyl gwybodaeth bellach. / *Awaiting the Seiriol Group to arrange a Bank account. Waiting further information..*
- 5.2 **Arolwg ciosg gan BT / BT Kiosk Survey** - Clerc wedi cysylltu ag adran Cynllunio'r Cyngor Sir sydd yn coladu ymatebion. Byddai BT yn cysylltu â ni i symud pethau ymlaen o ran mabwysiadu. / *Clerk has contacted the Planning Department who are collating responses. BT would the contact us to take things forward reagrding adoption.*
- 5.3 **Lôn Glanrhyd / Glanrhyd Lane** - Cyngor Sir wedi codi'r arwyddion "Anaddas i Gerbydau llydan" yn y lle anghywir, ger Arfon House a Tan y Ffordd. Clerc i ofyn iddynt ei ail-osod. Hefyd, de-ellir bod y Cyngor Sir wedi enwi'r brif ffordd i mewn i Landdona fel "Ffordd Pensarn" / *County Council have erected the signs "Unsuitable for wide vehicles" in the wrong place, near Arfon House and Tan y Ffordd. Clerk to ask them to re-install. Also, it is understood that the County Council have named the main road into Llanddona as "Pensarn Road".*
- 5.4 **Cae Chwarae Plant / Children's Playing Field** - ar ôl derbyn y dyfyniadau, penderfynwyd derbyn y dyfynbris rhatach / *Following receipt of the quotations, it was decided to accept the cheaper quote.*
- 5.5 **Lôn Hafoty / Hafoty Road** - O ran graeanu, mae'r Cyngor Sir wedi cadarnhau eu bod yn mynd i gynnal arolwg traffig ar hyd y ffordd yma ac o ben Allt Coch i Landdona. Bydd y canlyniadau yn bwydo mewn i'r adolygiad graeanu ar gyfer 2017/18. Oherwydd yr etholiad, ni allwn ofyn am bresenoldeb yr aelod portffolio yn ein cyfarfod. Dal i ddisgwyl cael atgyweirio'r manau pasio. / *Regarding the gritting, the County Council have confirmed they are going to carry out a traffic survey along this road and from the top of Red Hill to Llanddona. The results will feed in to the review of the gritting in preperation of 2017/18. Due to the election, we are unable to request the presence of the portfolio member at our meeting. Still waiting for the passing places to be repaired.*
- 5.6 **Parcio yn Ponc y Felin / Parking at Ponc y Felin** - Parcio ger Ponc y Felin yn beryglus i ddefnyddwyr y ffordd. Penderfynwyd chwilio am unrhyw grant perthnasol a gofyn i'r Cyngor Sir am gyngor / *Car parking by Ponc y Felin is dangerous to road users. It was decided to search for any applicable grant and ask the County Council for advice.*
- 5.7 **Tyllau lonydd lleol / Holes on local roads** - Clerc i godi'r mater gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â chyflwr lonydd lleol - Fferm Bryn Poeth, Capel Peniel, ger mynedfa i Bryn Ffynnon / *Clerk to raised the matter of the condition of local roads with the County Council by Bryn Poeth Farm, Peniel Chapel and the entrance to Bryn Ffynnon.*
- 5.8 **Llwybr Tai Bach / Tai Bach Footpath** - Clerc i edrych am yr holl wybodaeth gefndirol erbyn y cyfarfod / *Clerk to look for all the background information prior to the meeting.*
- 5.9 **Trac ger Tyddyn Waun / Track by Tyddyn Waun** - Swyddog o'r Cyngor Sir wedi ymweld â'r ardal ac yn trefnu gwaith gyda chontractwr i adeiladu sianel ar draws y trac i ail-gyfeirio'r dŵr. Hefyd mynd i lanhau'r ffos gyfagos / *Council Officer has visited the area and is arranging the work with a contractor to build a channel across the track to re-direct the water. Also going to clean the nearby ditch.*

## **6. Adroddiad gan y Cynghorwyr / Report by the County Councillors**

AR - Cyngor Sir wedi derbyn cyllid i bwrcasu troliau ailgylchu ychwanegol ar gyfer yr Ynys / *County Council has received funding to purchase additional recycling trolleys for the Island*

AR - yn datgan nad yw'n sefyll am ail-ethol. Diolchodd am gyd weithio ac am ein cefnogaeth, a dymunodd yn dda i ni ar gyfer y dyfodol. Diolchwyd am ei gefnogaeth. / *Declared he is not standing for re-election, thanked us all for our support and wished us well for the future. We thanked him for his support.*

RH - yn diolch i AR a CJ am ei gefnogaeth yn y cais am Grant Ymddiriedolaeth Elusennol tuag at Hen Ysgol / *Thanked AR and CJ for their support in the Charitable Trust application for the Old School.*

## **7. Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications**

- 22C233 - cais llawn ar gyfer codi 2 annedd ynghyd a chreu 2 mynedfa newydd i gerbydau ar dir gyferbyn a tan Ffordd Isaf, Llanddona - gwrthwynebu'r cais oherwydd y byddai dwy fynedfa o'r safle yn beryglus o ran y briffordd, ac mae'r safle yn addas ar gyfer un annedd yn unig / *Full application for the erection of 2 dwellings together with the creation of 2 new vehicular access on land opposite Tan y Ffordd Isaf, Llanddona - object the application because two entrances from the site would be dangerous in relation to the main road, and the site is suitable for one dwelling only.*
- 22C232 - Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i annedd yn Ty Mawr, Llanddona - dim gwrthwynebiad / *Full application for the conversion of an outbuilding into a dwelling at Ty Mawr, Llanddona - no objection*
- 22C232B/SCR - barn sgrinio ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i annedd - dim sylwad / *Screening opinion for the conversion of the outbuilding into a dwelling at Ty Mawr, Llanddona - no opinion*
- 22C231 - cais amlinellol ar gyfer codi dwy annedd yn cynnwys manylion llawn am y fynedfa gerbydau ar dir gyferbyn a - dim gwrthwynebiad / *Outline application for the erection of two dwellings together with full details of the vehicular access on land opposite Pen y Bont, Llanddona - no objection*

## **8. Fynwent Llaniestyn / Llaniestyn Cemetery**

Mae'r maes parcio wedi cael ei darmac ac mae'r giatiau wedi mynd i ffwrdd i gael ei baentio / *The car park has been tarmaced and the gates have been taken away for painting.*

## **9. Tir Comin / Common Land**

- 9.1 Glyndŵr (Cae Lili) - deiliad y tŷ wedi gosod peipen dwr ar draws y tir comin heb hawddfrait. Deiliad wedi cynnig gwasanaeth ei chyfreithiwr i drefnu'r hawddfrait - cytunwyd i ddefnyddio'r un cyfreithiwr i leihau costau / *The Householder has offered the services of their solicitor to arrange the easement - it was agreed to use the same solicitor to reduce costs.*
- 9.2 Comin Llaniestyn / *Llaniestyn Common Land* - cytunwyd i ddilyn i fyny'r hawddfrait y beipen dwr a osodwyd ar draws y comin tuag at y padog yn Tŷ Ben. Clerc wedi anfon llythyr yn anfwriadol at y person anghywir ac wedi ymddiheuro. Clerc i gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru / *It was agreed to follow up the easement regarding the water pipe installed across the common towards the paddock at Tŷ Ben. The Clerk inadvertently sent a letter to the incorrect person and has apologised. Clerk to consult with Natural Resources Wales.*
- 9.3 Tir Comin ger Pensarn / *Common Land by Pensarn* - Clerc wedi ysgrifennu a Mr O Parry wrth ofyn iddo beidio â thorri'r tir comin. Hefyd wedi cysylltu â thrigolion cyfagos ynghylch y cerrig sydd wedi ei gosod ger y llwybr troed / *Clerk has written Mr O Parry and asked him not to cut the common land. Also consulted with nearby residents regarding the stones placed near the footpath.*

## **10. Etholiad / Election**

Clerc yn rhannu ffurflenni etholiad y Cyngor Cymuned ar gyfer 4-05-17. Cyng. D Pritchard wedi cyhoeddi nad ydi yn mynd i sefyll fel Cynghorydd yn yr etholiad. / *Clerk shared the Community Council election forms for 4-05-17. Clr. D Pritchard announced that he is not standing as Councillor in the forthcoming election.*

## **11. Rheoli Risg / Risk Management**

Trafodwyd yr asesiad Risg Ariannol i'r Cyngor Cymuned. Clerc i cylch-rhedeg / *Discussed the Financial Risk Assessment to the Community Council. Clerk to circulate.*

## **12. Cyfrifon / Accounts**

Dim taliadau yn ddyledus / *No payments due*

## **13. Gohebiaeth / Correspondence**

- Cyngor Sir/County Council - Graeanu Lôn Hafoty / *Gritting Hafodty Road*
- E-bost / *E-mail – Cae Lili*
- Cyngor Sir / *County Council – Tyddyn Waun*

## **14. UFA/AOB:**

- 14.1 Clerc i ofyn i ddeiliaid Tref Gof i gael gwared â'r cerrig ar y tir comin cyfagos / *Clerk to ask the householder of Tref Gof to remove the stones on the nearby common land*
- 14.2 Clerc i fynd ar afael a'r mater o tan-daliad am logi Ystafell y Capel Peniel / *Clerk to address the issue of underpayment for the hire of Chapel Peniel Room*
- 14.3 Penderfynwyd anfon llythyr o longyfarch i Clwb Pêl-droed Llangoed am eu cyflwyniad diweddar wrth ennill Cwpan Dargie / *It was decided to send a letter of congratulations to Llangoed Football Club for their recent achievement in winning the Dargie Cup.*
- 14.4 Derbyniwyd rhybudd bydd newidiadau i wasanaethau bws lleol gan Arriva. Disgwyl gwybodaeth bellach / *Received warning of changes to the local bus services by Arriva. Awaiting further information.*

## **15. Dyddiad cyfarfod nesaf / Date of next meeting:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.55 o'r gloch. Penderfynwyd trefnu cyfarfod nesaf ar 19/04/17 am 7.30 yn Capel Peniel  
*There was no further business to discuss. Meeting came to a close at 9.55pm. Next meeting to be held on 19/04/17 at 7.30pm in Peniel Chapel.*

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad